Bydd wych- Bydd weithgar!

Newydddion Ysgol Waunfawr: Gorffennaf 2022

Dyma newyddion o'r Ysgol ar gyfer yr hanner tymor olaf o'r flwyddyn ysgol.

Pob dymuniad da i Flwyddyn 6 yn Ysgol Brynrefail yn mis Medi- criw gwych!

Diolch i Rieni A Chyfeillion yr ysgol am dalu am drip diwedd blwyddyn iddynt i Glasfryn!

Dyddiadau:
HMS 1/9/22+ 2/9/22
Gallwch gasglu gwisg ysgol newydd ar y dyddiau hyn.
Plant i ddychwelyd 5/9/22

Dyma ddiwedd blwyddyn brysur arall a phopeth yn dychwelyd i'r drefn arferol yn araf bach. Diolch am bob cefnogaeth a diolch o galon i holl staff yr ysgol am eu gwaith. Mwynhewch y gwyliau!

Staffio:
Yr ydym yn ffarwelio gyda Mrs Sioned Jones ar ôl 13 o flynyddoedd. Diolch iddi am ei gwaith a phob lwc i'r dyfodol.

Hwyl fawr i Anti Andrea hefyd sy'n cychwyn ei swydd newydd yn Ysgol Llandygai.

Pencampwyr Mabolgampau- Eilio a Gwyrfai yn gyfartal. Dyma ddigwyddiad anarferol iawn!

Cafwyd Ffair Haf llwyddiannus iawn gyda elw o dro £100- diolch i'r plant a'u rhieni am y stondinau ac am yr holl waith trefnu!

Twrnament pêl-rwyd yr Urdd yn ddiweddar- da iawn wir genethod!!

Dyma'r ddau ddisgybl a sgoriodd y nifer uchaf o bwyntiau- llongyfarchiadau!

Taith arbennig i Bili Palas i'r Cyfnod Sylfaen yn ddiweddar.Pawb wedi mwynhau yn fawr.

<u>Gweithgareddau Awyr Agored</u>
Diolch i bawb am eu cymorth gyda'r gweithgareddau eleni ac am noddi'r disgyblion:
Beicio Noddedig £633
Sgipio Noddedig £431

Bydd yr arian yn cael ei wario ar wella adnoddau'r ysgol. Diolch.

Mae pwyllgor rhieni a chyfeillion yr ysgol yn awyddus i gael mwy o gymorth i godi arian ar gyfer yr ysgol. Cysylltwch â cyfeillionysgolwaunfawr@gmail.com am fwy o wybodaeth sut y gallwch eu help .Diolch am eich cefnogaeth.